# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 20 Tachwedd 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Rhaglen Ddeddfwriaethol (Mesurau Ychwanegol)

**C12 Helen Mary Jones:** Pa drafodaethau gafodd Prif Weinidog Cymru gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch mesurau ychwanegol posibl yn rhaglen ddeddfwriaethol y llywodraeth? (OAQ14032)

**Prif Weinidog Cymru:** Trafodaf ystod eang o bynciau yn rheolaidd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

### Datblygu Polisïau

**C13 Janet Davies:** Pa drafodaethau gafodd Prif Weinidog Cymru gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru er mwyn sicrhau bod sylwadau pobl Cymru ar ddatblygu polisïau cyffredinol yn cael eu hystyried? (OAQ14013)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf yn cwrdd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn rheolaidd i drafod ystod eang o bynciau sy'n ymwneud â Chymru a'r DU.

Mae barn pobl Cymru yn bwysig i bob un o'n polisïau, fel sy'n amlwg o'n hymrwymiad i lywodraethu yn agored a thryloyw. Yn ystod yr haf, gofynnais i bobl Cymru beth oedd yn bwysig iddynt, ac yr oeddwn yn falch o gyhoeddi'r 'Cynllun i Gymru 2001', a oedd yn adlewyrchu eu barn a'u safbwyntiau.

### Cysylltiadau â Phatagonia

**C14 Gwenda Thomas:** Pa fanteision a ddaw i Gymru yn sgîl ailfeithrin cysylltiadau â Phatagonia? (OAQ14018)

**Prif Weinidog Cymru:** Patagonia yw un o'r ychydig ardaloedd yn y byd y tu allan i Gymru sydd wedi cadw elfen gref o ddiwylliant a hunaniaeth Gymreig. Yn ddiweddar fe dorrais fy enw ar femorandwm cyd-ddealltwriaeth â llywodraethwr Chubut, sy'n darparu cyfleoedd i gydweithio ym meysydd twristiaeth, datblygu economaidd, hybu allforion, diwylliant, addysg a iaith. Byddwn yn parhau i gydweithio ag awdurdodau talaith Chubut i ddatblygu'r cyfleoedd hynny ymhellach, ac i gyfrannu at gynnal rhan hanfodol o etifeddiaeth a hanes ein gwlad ni a'u talaith hwy.

### Rhoi Polisïau'r Cabinet ar Waith

**C15 Alun Cairns:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y rhesymau am yr oedi wrth roi polisïau newydd y Cabinet ar waith? (OAQ14016)

**Prif Weinidog Cymru:** Credaf i ni wneud cynnydd rhagorol yn gyffredinol o ran ymrwymiadau'r cytundeb partneriaeth. Fe fu oedi lle'r oedd y rhai yr ymgynghorwyd â hwy am gael mwy o amser i ddatblygu eu cynigion.